Cyfres Llanbedr | HYDREF, 1933 | Cyf. 33. Rhif 10

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

"GWELL YW ENW DA" (NEU '68).
GWYR PENTYRCH.
YMSON: LLYFR JOB A'I BROBLEM.
PANTYDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSUL.
PRIODASAU. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywyddes—Mrs. JONES, Y Bryn, Llanybyther.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd Chwarter

Y GYMDEITHAS UCHOD

Yng Nghapel Pantydefaid

Hwyr Mawrth a Dydd Mercher, Hydref 24 a 25
— 1933 —

Hwyr Mawrth am 6.30—Pregethir gan y Parchn. Lewis Williams a D. G. Rees.

Fore Mercher am 10—Pwyllgor y Gymdeithas.

Nawn Mercher am 2—Pregethir gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D.

Hwyr Mercher am 6—Pregethir gan y Parchn. T. L. Jones ac E. R. Dennis.

Estyn y Gweinidog a'r Gynulleidfa Groeso Gwresog i Bawb.

E. Gwilym Evans (*Gweinidog*).

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. HYDREF, 1933. Cyf. XXXIII. Rhif 10.

"Gwell yw Enw Da" (neu '68).

Pennod IX.

(Yr wyf tan orfod brysio am fod y dalar yn ymyl. Dyna esbonia y neidio dros benodau lawer).

NEITHIWR eisteddwn wrth fy nhân o fawn, a'm cefn ar y palis ynghornel glyd yr hen simnai lwfer. Yr oedd wedi dechreu codi gwynt ac yr oedd mynd ar bopeth. O anghofio bwced tu allan i'r drws, fe'i clywid yn dawnsio ar hyd y clos ym mraich y gwynt. Nid oedd nemor chwant arnaf i agor y drws a'i gyrchu. Cofiwn fod ei waelod yn deneu ac wedi dechreu gollwng eisoes. Fel y cryfheai'r gwynt ai'r bwced yn fwy diwerth yn fy ngolwg. Pe bai yn fwced newydd fe fuasai'n ddigon anodd mynd i'w gyrchu ar y fath noson. Credwn fod rhyw gawr wedi dod gan hyrddio popeth o'i lwybr, ac ysgwyd y drws a llaw anhrugarog. Codais gan ei gloi rhag iddo ddychwelyd gyda mwy o rym. Tybiwn fy mod yn ddiogel wedyn. Crynai'r tŷ fel ped ofnai y rhuthr nesaf. Hyrddiai'r gwynt ei lengoedd dro ar ôl tro ar y drws. O fethu'i agor cynddeiriogai yn y simnai gan chwiban her yn nhwll y clo. Clywn ambell lechen mwy mentrus na'r cyffredin yn gadael y tô gan fynd ar ôl y gwynt, ond yn torri'i chalon ar fyrr gan syrthio'n gandryll i'r llawr. Nid oedd ond llechen neu ddwy debig iawn, ond o wrando ger y tân tybiwn i fod pob llech wedi codi fel un gŵr a mynd ar ei ôl, neu ei fod yn mynnu didoi'r tŷ er fy nal a'm cael i'w afael. Gwrandawwn. Gylch y tŷ safai rhestr o hen dderi cnotiog praff fel gwyliedyddion mud, ond heno y maent wedi hepian gan adael y gwynt i ddod ataf. Griddfanent, ac yr oedd cenedlaethau o ddioddef wedi'u brauhau. Tybiwn eu bod yn fyw o glywed yr ocheneidio.

Tua chanol nos gostegodd y gwynt, ac erbyn y bore yr oedd yna dawelwch mawr, fel y bydd ar ôl storm yn fynych. Y gwynt wedi blino debig iawn. Petruswn droi allan yn y bore gan ofni gweld y difrod. Yr oedd braich y tô wedi noethi a phriddfaen neu ddwy wedi gadael y simnai. Yr oedd y canghennau torr yn sôn am rym a llwybr y gwynt, a lleithiai fy llygad o ganfod hen dderwen fawr a chnotiog a fu yn gadarn dro ar ei hyd ar y llawr. Rhwygasai'r gwynt gangen ar gangen ar hyd y blynyddoedd ond wele yr hen foncyff yn rhuddin i gyd yn ysglodion hwnt ac yma ar hyd y clos. Synfyfyriwn uwchben yr hen foncyff. Yr oedd y cyfan yn ddarlun o'r ardal. Wedi'r storm yr oedd yma dawelwch mawr. Mewn gwirionedd yr oedd yn rhy dawel. Ni fedrid dweyd bod yna frwydro wedi bod o gwbl. Codai'r haul fel cynt. Chwibanai'r gwynt a phistyllai'r glaw. Yr oedd dyn yn priodi a marw a byw gan fynychu'r ffair a chwrw bach ac angladd. Braenarai'r ffermwr ei fanc ac ai'r gwaith ymlaen fel cynt : plygu perth a chodi clawdd ; agor cwter a phlethu camfa. Yr oedd yn anodd credu bod yna derfysgu a brwydro wedi bod. Holai llawer ffermwr ei hunan fel yr oedd yr amser yn tynnu 'mlaen a dydd barn yn agoshau.

Nid o'i fodd y pleidleisiodd nemor un yn groes i'w feistr. Nid pleidleisio er mwyn sarhau y meistr ond oherwydd na fedrid peidio. Nid ymfalchiai nebun fod y scweier wedi'i lorio. Teimlai pobun fel tad wedi ceryddu ei blentyn. Ni wneid ond am nad oedd yna ffordd arall. Treuliwyd misoedd o bryder a dyfalu, a rhyw si ar ôl si yn dod fel ton ar ôl ton drwy'r ardal. Cilwenai ambell gynffonnwr gan daflu awgrym a thorri mwy o dir gan sôn am symud i fferm o fwy ar fyrr. Darniai'r wên a'r si galon mam fel y rhwyga'r aradr y gwndwn glâs. Ni chredid pob si, ond ofnid y gwaethaf. Gwyddid bod rhai eisoes wedi cael profi'r sgriw. Tan gysgod y plâs yr oedd siop. Siop y Plas y'i gelwid, a dyna oedd mewn gwirionedd. Onibai am y plas fe fuasai golwg dlotach ar wraig y siop. Prynid pob peth ynddi, a phrynai llawer am fod gwraig y plas yn prynu ynddi. Y mae'n dda gan lawer gael prynu yn yr un siop a'r mawrion. Y mae siwgr yn felysach a sidan yn ddisgleiriach o'i gael yn yr un siop a'r scweier.

Beth bynnag am hyn, druan o wraig y siop. Ni werthodd werth ceiniog i'r plâs wedi'r etholiad. Y drwg amdani ni wyddai pam, nes clywed i'w brawd—ffermwr cefnog—bleidleisio'n Rhyddfrydwr. Yr oedd hynyna'n ddigon. Ni ddoi'r scweier na'r stiward i'r siop mwy. Ni ddoi neb o'i gynffonnwyr ychwaith. Cododd y cwsmeriaid fel haid o betris yr un bore gan ei gadael oherwydd pechod arall. Doi, digon gwir, ambell gwsmer tlawd am ei werth ceiniog, ond nid oedd mynd ar y sidanau drud a phethau'r plâs. Yr oedd rhaid i rhai'n aros dyddiau gwell.

Y mae gan ddyn ffordd od o ddial ond y dial mwyaf dieflig ydyw dial ar ddyn trwy arall, a hwnnw'n ddiniwed.

O feddwl amdani gofynnai llawer gwraig i'w gŵr,—

" Pam yr est ti yn erbyn, meistr ? Fe ddaw y bumed-ar-hugain o Fawrth a chawn ninnau'i theimlo hi fel gwraig Siop-y-Plâs ; Gei di weld ! "

Ofer ydoedd gofyn yr un cwestiwn drosodd a throsodd. Yr oedd un ateb cystal a chant, ac ni fedrid galw yr un ateb hwnnw yn ôl. Ni fynnai pes medrai. Gofidiai am iddo glwyfo a dolurio teimlad gwraig ei fynwes ond nid am iddo bleidleisio yn erbyn ei feistr. Gwanwyn digon diflas ydoedd i lawer un ohonynt, ac er nad oedd deunod y gwcw i'w glywed eto yr oedd gwas y gwcw yn prysur hedeg o stiward i scweier. Gwelid pryder yn gwelwi'r wyneb a chrymu'r war. Nid oedd dim i'w wneuthur ond dioddef yn ddistaw. Ni fedrai fod yn waeth na'r si na chynddrwg a'u disgwyl. O hir ddisgwyl fe ddaeth y dydd—y bumed-ar-hugain o Fawrth, '69, fel pob blwyddyn, ond crynai pob Rhyddfrydwr. Yr oedd digon o amser wedi mynd heibio er i bob scweier anghofio neu dawelu o leiaf, ond nid felly. Yr oedd y stiward yn ei elfen wrth anfon y papur glâs, chwedl yr ardal, heb ofalu bod pob papur glâs fel brath picell yng nghalon pob mam.

Ni wnaeth llawer ffermwr ond gwelwi ennyd. Symudai'r wefus fel ped offrymai weddi fud ac aeth at ei waith fel arfer. Ni fynnai ddangos ei fod yn teimlo, o leiaf. Ni ddeellai rywsut. Yr oedd wedi pleidleisio yn unol ag arch Duw, a rhwng Duw a'r canlyniadau. Od ystyriai Duw ef yn deilwng i ddioddef nid oedd dim amdani ond dioddef. Yr oedd arall wedi gwneud yn llawen, a braint oedd cael cyd-ddioddef gyda hwnnw. Dyna bregethid ar y Sul. Dyna eiriau Gwilym, a theimlai rhyw amen yn dod megis o waelodion enaid. Yr oedd rhyw falchder ymhob calon ar waethaf y scweier. Eisteddai Capten Thomas yntau mewn barn ar ei ddeiliaid wythnos cyn y bumed-ar-hugain, ac yr oedd wedi gosod seren ddu gogyfer ag enw Thomas Thomas, Pantydefaid ; David Thomas, Cwmmarch ; Morris Ddolgou a William Jones, Caerau. Petrusai'n hir. Rhoddasai'i air y buasai'n dial ac nid gŵr mohonno a dorrai'i air. Petrusai'n hir am fod William Jones, Caerau yn un o'r troseddwyr. Gŵr digon cydwybodol a gonest ydoedd ac amaethwr cyfrifol. Gwaeth na hynyna yr oedd yn ŵr i Ann ei gyfnither. Beth ddwedai Ann ? Waeth hynny na rhagor yr oedd wedi beiddio amau ei awdurdod, a chroesi'i orchymyn pendant. Yr oedd erbyn hyn wedi addo'r Caerau i gymydog Ann a weithiodd yn dda yn ystod yr etholiad. Ni chanmolai hwnnw erbyn hyn am ei demtio, ond fe roisai ei air iddo ac ni ellid mo'r help. Yr oedd yn rhy ddiweddar, ond trueni serch hynny fod Ann ei gyfnither a mam tyaid o blant bach yn gorfod dioddef. Fe fyddai wynebu Ann yn broblem newydd. Nid oedd yn agos mor rhwydd i dorri'i enw wrth y rhybuddion ymadael a phe buasai wedi gwneud hynny yn nyddiau'r etholiad. Er pob petruso a holi'i hunan fe anfonwyd y rhybuddion, ac i Ann

ei gyfnither hefyd. Wedi iddo golli'i lwybr unwaith, anodd, anodd, oedd dod o hyd iddo. Wrth iddo fynd ar gyfeiliorn ni ofalai pa mor bell yr ai. Yr oedd Cymru hithau yn gwrando cri rhywrai yn y cadwyn,—

"Y mae yn eithaf gwir bellach fod ugeiniau wedi derbyn rhybudd i adael eu ffermydd yng Ngheredigion, am yr unig reswm iddynt bleidleisio yn yr etholiad diweddaf yn ôl eu cydwybodau. Nis gall y meistri tir wadu hyn pe gofynnid iddynt, ac ni chredid hwy gan un o bob deng mil pe gwadent hynny. Y mae'r ffaith yn ddigon hysbys, ac yn ddianrhydedd mawr iddynt. Bygythid hyn oll yr ydym yn deall, ymlaenllaw; dywedai un goruchwyliwr, beth bynnag, lawer cyn y pumed ar hugain, 'y caent hwy'—y rhai a bleidiodd yn ol eu cydwybodau—'ar ôl cymaint o sôn amdani brofi'r sgriw cyn bo hir'."

Yr oedd y sgriw ar waith, a rhywun yn dioddef dani. Daeth y papur glâs i Gaerau, a gwelwodd Ann o ddeall fod ei chefnder wedi cymryd ei arwain oddiar ei lwybr. Buasai'n well ganddi fod gŵr dieithr wedi'i wneud ac nid ei chefnder, ond ofer ei dewis hi. Ni ddwedodd William yr un gair. Gwyddai bod ei briod yn dioddef yn ddistaw, ac wedi ei theimlo hi yn waeth am fod y Capten yn perthyn iddi. Trinid y ferm fel cynt a chredai pobun y'i gosodid iddynt eilwaith. Yr oedd dau gant yn yr un cwch yn Sir Aberteifi,—un o bob deg o'r rhai a bleidleisiodd dros y Rhyddfrydwr. Dyna beth oedd casglu degwm heb os nac onibae.

Ni wnaeth neb ei feddwl i fyny hyd o fewn rhyw fythefnos i Wyl Mihangel fod y rhybuddion i sefyll. Credid y codid y rhent fel dirwy am anufuddhau a thorri'r gyfraith—cyfraith caethiwed ond ni freuddwydiodd odid neb fod y ffermydd wedi'u gosod eisoes. Nid peth rhwydd oedd wynebu unrhyw sweier a gofyn am y ferm eilwaith. Aeth William i ofyn am y Caerau er mwyn Ann. Ni phlygai hi, ac yr oedd wedi'i siomi drwyddi. Taith ddiflas oedd y daith i Lanfair oherwydd ni fedrai syrthio dan ei fai, ac addo peidio gwneud eilwaith. Gwyddai rhyngtho ef a'i Dduw y buasai'n gwneud yn union yr un fath drannoeth. Dywedodd y Capten wrtho drwy'i stiward fod y Caerau wedi'i gosod eisoes. Troes yntau am gartref. Yr oedd wedi fotio a'i lygaid yn agored, ac yr oedd yn fodlon dioddef y canlyniadau. Nid oedd raid i Ann ofyn dim iddo. Yr oedd yr ateb wedi'i ysgrifennu mewn llythyren fras yn groes i'w wyneb, ac yntau wedi heneiddio rhyw ddeng mlynedd mewn rhyw deirawr.

Nid oedd dim amdani ond paratoi i werthu er gwybod y buasai yn golledwr am fod cynifer o ffermydd yn gorfod gwneud fel yntau. Rhaid oedd gwerthu y cyfleu cyntaf am na fedrid disgwyl trugaredd mewn dim. Yr oeddent yn rhwym o glirio allan wrth y dydd, ond i ble? I glais y clawdd?

Ie, i ble? Dyna'r broblem. Yr oedd cynifer yn gwerthu a chwilio lle ac nid pobun feiddiai roi lle i'r trueiniaid. Nid oedd dwll yn unman er y buasai llawer yn diolch am dowlad neu ysgubor. Symudodd teulu'r Caerau i fyw ar lofft Siop-y-Cwm, a dylasai ardal ambell dro ddiolch nad oes scweier yn byw ynddi.

Golygfa dorcalonnus ydoedd gweld tad a mam a naw o blant yn gadael eu cartref heb fedru cymryd ond y nesaf peth i ddim gyda hwynt i'r ddau rŵm fach ar y llofft. Mor oer oedd codi drannoeth. Ni frefai buwch yn y beudy. Nid oedd feudy yno. Ni weryrai ceffyl ac ni chyfarthai ci. Nid oedd gan y fam fuwch i'w godro er yn arfer godro pymtheg. Chwithig oedd troi allan heb iar yn rhedeg ati i ddisgwyl ei thamaid. Yr oedd pob creadur a dyn wedi'u gadael a hwythau'n unig.

"Na ddigalonned y merthyron hyn", meddai Thomas Gee, "er poethed ydyw'r tân. Y mae gwaredigaeth yn rhywle o'u blaen. Nid wn i pa fodd y'u gwaredir hwy; ond y mae Un yn gwybod, ac fe ddaw, er nad feallai yn y ffordd y maent hwy yn disgwyl. Ond bydded iddynt gymryd calon. Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe drowyd nifer o ddynion gonest allan o'u ffermydd am yr un trosedd yn sir Feirionydd, ac yr oedd yr holl wlad yn teimlo drostynt, ond y mae plant y gwŷr da hynny yn barod i dystio heddyw mai un o'r bendithion mwyaf iddynt hwy oedd eu colledion blaenorol gan fod Rhagluniaeth wedi eu cyfarfod. Felly am etholwyr siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin ac eraill yn y dywysogaeth, gwnaethant yr hyn oedd yn iawn yn ôl tystiolaeth amlwg eu cydwybod, a chyflawnasant eu dyledswyddau yn ffyddlon i'w gwlad ac i'w Duw; ac yr oedd yntau yn anturio dywedyd y cymerai y Duw hwnnw, yn ôl ei arfer, y canlyniadau arno ef ei hun."

Nid oedd sôn am ddim ond gwerthu ffordd y cerddai. Nid oedd na thrugaredd nac amynedd. Yr oedd rhaid clirio allan ar unwaith.

Trist oedd gwedd pob teulu o weld pob peth yn mynd a chwalu'r cartrefi. Nid oedd lygad sych o weld gwerthu y da a'r ceffylau, y dodrefn—hen ddodrefn y teulu a oedd mewn ystyr yn gymaint rhan o'r teulu a neb. Yr oedd yr hen gwpwrdd tridarn a'r coffor dillad heddiw yn eiddo i arall. Gwasgerid treftadaeth y teulu i'r pedwar ban. Nid cartref a fuasai'r cartref mwy a'r hen bethau wedi mynd ac yn eiddo i arall heb hawl iddynt. Yr oedd gwerthu y rhai hyn fel pe gwerthai dyn ran ohono ef ei hun. Wylai'r plant o weld y chwalu a'r difrod. Fe fuasai yn ddigon drwg pe buasai raid gwerthu oherwydd afiechyd neu angau, ond dyma werthu anesboniadwy. Pob teulu yn chwilio lloches ond yn methu cael lle i roi pen i lawr. Ni fedrir darlunio; y mae tuhwnt.

"Yr oedd cegin y Puwiaid yn yr ochr arall i'r tŷ: y wraig weddw wedi *shiftio* fel ag i'w gwagu o bob peth oedd ganddi hi yna, er mwyn i'r Puwiaid gael lle i ddodi ychydig o ddodrefn—hen gwpwrdd cornel a fuasai ers hir flynyddau yn eiddo'r teulu, a chloc, a chwp-

wrdd press, a hen ddresser dderw hen ffasiwn, a gadwyd heb eu gwerthu gyda'r eiddo ereill ddiwrnod yr *auction* : . . .

Yr oeddynt yn godro o bymtheg i ugain o fuchod. Ac yr oedd dwy neu dair o'r hen fuchod—' Llwyden fawr ', a'r ' Fuwch Ddu-fach ', a ' Doli ',—yr oedd y rhai hyn yn *favourites*, ac mor deuluaidd a bron mor agos at ei chalon ag un o'i phlant. ' Bu bron iawn i mi,' meddai Mrs. Puw, ' a rhedeg allan a chofleidio Llwyden Fawr pan welais hi yn cael ei chychwyn i ffwrdd oddi ar y buarth '. Aeth gwerthu Llwyden Fawr yn fwy o lawer ataf na cholli ein cartref. . . .

Heddyw y mae'r cwbl wedi eu chwalu—y ceffylau—y defaid, a'r gwartheg—hyd yn oed Llwyden Fawr, a Sian, a'r Fuwch Ddu Fach, Crapach, Nansi a Doli—wedi eu gwerthu : dim yn aros heb law Llwyden Fach a'r ferlen,—yr hen gartref wedi'i osod i eraill : y dodrefn, peth yma, peth draw ; ac wedi gorfod diangc am noddfa i'r fan hyn o dan gronglwyd y wraig weddw."

Yr oedd teimlad ardal wedi'i fraenaru a'r clwyfau'n gwaedu. Yr oedd haearn wedi'i arllwys megis i waed y gwroniaid, a medrent ddioddef. Nid cynt nag ydoedd rhai o'r clwyfau yn dechreu cau a theulu yn cael tyddyn rywle neu gilydd gan adael y llofft a'r ysgubor nag y torrodd storm arall—gwaeth na'r gyntaf yn ardal Llandysul. Gwaeth, ie llawer gwaeth yw dioddef wedi credu eich bod yn rhydd na dioddef y storm fel eraill.

Canmolid stiward Galltyrodyn yn 1869 a cheisiai ambell Rydd-frydwr ei wyngalchu gan ddweyd ei fod yn well na'i air. Nid oedd gamp iddo, a llai na hynny o ddiolch o ddeall nad oedd gyfleu ganddo Nid oes ddiolch i neb am beidio gwneud yr hyn na fedr wneud. Y mae'n waeth na'r dialwr am ei fod yn cymryd credid nas haedda. Beth bynnag am hyn yr oedd stâd Galltyrodyn yn y Siawnsri. Wedi iddi fynd yno unwaith, teimlai pobun yn weddol hyderus na ddoi oddiyno yn fuan. Yn 1871 rhowd rhybudd i bob tenant er ailbrisio'r tir. Yr oedd eisiau eu godro, a gŵyr y Siawnsri y ffordd i wneud hynny o leiaf. Ni ofalai neb. Ni wylltiai neb. Yr oedd Tori a Rhyddfrydwr yn yr un cwch. Nid oedd yma na dial na dim. Medr y Siawnsri gymryd y bai am ddiawlineb dynion, a medrir. troi gofynion cyfraith yn gyfleu i'r diawlineb hwnnw. Beth bynnag am hyn fe'i gwnawd y tro hwn.

Wedi'r ail-brisio ai'r deiliaid un ar ôl y llall i ail-gymryd y ffermydd gan obeithio nad oedd y Siawnsri wedi godro yn rhy lwyr. Ni freuddwydiodd neb y buasai dim gwaeth na chodi'r rhent yn ei aros. Aeth llawer gan eu cymryd drachefn ac yr oedd popeth yn dda, ond y mae hen gôf gan hen gi.

Gwawriodd ar feddwl y stiward a wyngalchid ddwy flynedd yn ôl fod Rhagluniaeth neu ddiofalwch scweier neu wanc y Siawnsri wedi rhoi cyfleu ardderchog iddo i ddial a chofiodd am etholiad '68.

Onid oedd llawer un o'r tenantiaid hyn wedi ei amharchu a'i anwybyddu yr adeg honno? Y mae cosp o hir ddilyn yn siwr o ddala. Aeth dros y rhestr eilwaith a phan ddaeth y Rhyddfrydwyr mwyaf blaenllaw yr oedd yn barod. Ni fynnai ail-osod y ffermydd i flaenorwyr yr wrthblaid. Nid oedd bris arnynt iddynt hwy. Yr oedd y rhybudd ymadael i sefyll. Yr oedd y scweier ieuanc oddicartref a'r awdurdod yn llaw y stiward. Rhoes yntau dro i'r scriw a'r gwŷr dani oedd,—

REES THOMAS, Y DOMEN.
JOHN THOMAS, FELIN RHYDOWEN.
JOHN JAMES, CAMNANT FACH.
DAVID JONES, FFYNNON LLEWELYN.
JENKIN JONES, PYLLAU'R BRYN.
DAVID THOMAS, SIOP RHYDOWEN.
DAVID DAVIES, GILFACHRONW.
OWEN JONES, BLAENDYFFRYN.

Dyma wyth gŵr na fedrai scweier na stiward mo'u plygu. Troes y stiward y sgriw, ond waeth hynny na rhagor ni chlywwyd ysgrech nac ochenaid. Medrai rhai ohonynt o leiaf fforddio chwerthin yn ei wyneb. Ni ofidid am un heu ddau ohonynt. Nid oedd raid. Onid oedd John James yn berchen ar ffermydd yn yr ardal a medrai ddewis un o'i ffermydd ei hun. Ni fedrid ei feio am wneud ond ni wnaeth. Nid dyna ruddin y gwŷr hyn. "Y mae yn haws i mi gael lle nag un o'm deiliaid", oedd ei ateb gwrol. Chwarae teg iddo. Cefnodd ar ei gartref a'i ardal ac ni fynnai wneud ei hun a gondemniai mewn arall. Aed Camnant-fach i gynffonwyr. Ni chynffonnai ef. Medrai rhai o'r wyth ond odid roi ceiniog am geiniog i'r scweier ei hun.

Uwchben y New Inn, rhyw ddau can llath o'r briffordd a chymaint a hynny oddiwrth hen Gapel y Llwyn y safai ferm y Ffynnon-Llewelyn. Yma y trigai David Jones, un o gefnogwyr Y Parch. William Thomas yn nydd y brwydro. Gwyddai David Jones am yr anhawster i gael ferm a gwyddai hefyd am y wlad bell dros y tonnau. Yr oedd wedi hen flino ar Gymru a'i chyffion, ar wlad y scweier a'r stiward. Nid oedd hawl gan Gymro i alw ei enaid yn eiddo iddo. Yr oedd yn gâs gan ei enaid glywed sôn am stiward nac offeiriad. Yr oedd ganddo ddau fab a merch, ac ni fynnai iddynt hwy grymu byth a beunydd gan ddioddef dan droed. Ni fedrai feddwl am hyn ac nid oedd dim amdani ond gwerthu a chanu'n iach â bro ei enedigaeth.

N. a N.

(I'w barhau.)

Gwyr Pentyrch.

V.—Y TWRCH DAEAR.

HYFRYTED ydyw eistedd ar hafddydd hirfelyn tesog ar y lawnt tan gysgod pren afalau yn yr ardd, gan wrando ar ruo distaw pell y daran yn awgrymu bod y storm wedi cilio draw. Y mae'r goeden a ymnyddai gynnau wedi ymunioni heb ond cangen rwygedig at half-mast i sôn am rym y storm a'r tywydd garw. Cân yr adar megis cynt wedi anghofio'r ddrycin, a chyn pen nemor o amser ni fedrir dweyd i storm gerdded mor drwm drwy'r fro. Cof byrr sydd gan natur, a dyn hefyd o ran hynny. Mynych y mae awydd gofyn arnaf gyda'r gŵr doeth, Pa beth yw dyn?

Gŵyr am y stormydd a'r tywydd garw, brath a dichell, ffrind yn cefnu a chalon yn gwaedu, ond fe anghofia y rhain i gyd o deimlo bod Rhywun mwy na dynion bach mawr y byd yn delio ag ef.

O ddilyn y meddyliau crwydr hyn, ac o synfyfyrio ar y pell, anghofiais yr agos yn fy ymyl; pob blodeuyn tal wedi'i ysigo, a'r lawnt a'r border bach yn annibendod i gyd. O ddechreu sylwi canfum er fy nhristwch fod y lawnt yn fwy anniben nag arfer am fod Pridd y Wadd yno fel cornwydydd crawnllyd ar wyneb teg rhyw riain brydferth. Gwn ystyr pridd y wadd ac nid diystyr mohonof o fywyd unrhyw greadur. Ni buaswn yn achwyn na chwyno na thrapo pe buasai'r twrch daear wedi codi twmpath er dod i'r golau. Y drwg amdani yw na chât ef mo'r golau. Twrio y bydd byth a beunydd ym mherfedd y ddaear gan fyw ar greaduriaid a gâr y tywyllwch fel yntau. Y mae ei groen ef y iach fel y melfed du ond trueni gweld fy lawnt i.

O fyfyrio yng ngwres yr haul cysgais ennyd. Yn fy nghwsg cefais freuddwyd neu weledigaeth.

Gwelais nad oedd y lawnt ond darlun o fywyd. Edrychai ennyd fel lawnt newydd ei thorri. Brydferthed oedd lliw a llun pob blodeuyn a hyfryted arogl per y rhosyn. Gwyrddach nag arfer y lawnt a'r gawad law wedi'i sirioli. Yr oedd gwên ar ei hwyneb.

Clywwn ganu melys distaw fel cân adar Rhiannon. Yn fy mherlesmair ysgafn dechreuais sylwi yn graffach. Teimlwn fy mod yn gweld tan yr wyneb. Yr oedd rhyw gryndod megis yno, a than fy llygaid gwelwn y lawnt yn cael ei chorddi gan y Twrch Daear, a'i hanurddo gan bridd y wadd. Ni fedrwn lai nag wylo o weld prydferthwch y lawnt wedi'i ddifa yn ddiesgus, a'm gofal a'm llafur yn ofer. Yn fy nagrau teimlais law ar fy ysgwydd, a honno cyn ysgafned ag awel haf. Codais fy mhen gan syllu ym

myw llygaid bod o fyd arall. O weld fy nagrau a theimlo fy nhristwch ceisiodd fy nghysuro.

"Paid digalonni," meddai wrthyf. "Gŵyr Duw am dy ofal a'th lafur er cadw y lawnt yn brydferth, ond ef hefyd yw crewr a chynhaliwr y Twrch Daear. Gŵyr am ei gariad at y tywyllwch, ond pe cait olwg ar ei lwybrau cudd a'i aml scêm ni fedret beidio chwerthin. Nid yw pridd y wadd ond scêm a chynllwyn y tywyllwch yn dod i'r golau. Ni welwn ni ond yr hyn y sydd yn anharddu bywyd. Delweddu y mae'r Twrch Daear y Type o gymeriad y sy'n fodlon credu y gwaethaf am bawb gan briodoli i arall ei feddwl bitw bach ei hun. Ni fedr godi i'r golau. Yn y tywyllwch y mae, ac ni welwn mohono ond gallwn ddilyn ei lwybr drwy fywyd wrth ei driciau mên a'i droion brwnt, fel y dilynir llwybr y Twrch wrth bridd y wadd.

Pe bait yn edrych i gyfeiriad y wawr gan gau dy lygaid er teimlo y gwres a'r arogl ni welet bridd y wadd."

Di hunais innau o glywed gwich ac o deimlo grym y cerydd. Heb fod nepell yr oedd trap a thwrch daear ynddo a chefais esboniad ar y wich a theimlwn rywsut fod y breuddwyd yn *real*. Ni fedrwn lai na thosturio wrtho. Er yn byw ymherfedd y ddaear nid oedd briddyn ar ei felfed ef. Edrychais yn hir arno ac ar bridd y wadd ar fy lawnt. Heb yn wybod i mi doi hen gwpled o gân Saesneg i'm meddwl ac ni fedrwn ei ollwng tros gôf,—

> The mills of God grind slowly
> But they grind exceeding small.

Codais o'm sedd gan feddwl am ragluniaeth Duw. Tynnais y Twrch Daear o'r trap. Ni wyddwn ble i'w roi, ond tybiais na fedrwn wneud cymwynas well ag ef na thrwy osod ei lun ymhlith y tanddaearolion yn oriel Gwyr Pentyrch.

O sylwi ar felfed du y Twrch marw, daeth y syniad o *uniform* i'm meddwl. Yr oedd gwisg y Twrch yn ddigon pregethwrol i fodloni y mwyaf urddasol. Ni chymerwn y byd er hynny am gymharu fy mrodyr na minnau iddo. O bryd i'w gilydd gofynnir yn garedig i mi paham na wisgaf yn fwy clerigol. Gyda llaw y mae'n well gennyf goler soft na choler arall, ac yn fy myw ni welaf fod du yn liw santaidd. Hyd y cofiaf ni welais i liw du ym myd natur, ac y mae gormod o'r hen Gymro ynof i beidio caru llun a lliw. Nid yw hynyna ond gair rhwng cromfachau. Ni welaf i serch hynny un rheswm pendant dros i bregethwr wisgo uniform fel plismon. O bydd rhywun yn caru gwneud y mae iddo groeso. Dibynna'r plismon ar ei got lâs a'i fotymau gloyw. Y rhai hyn ac nid y coward, hwyrach, a'i gwisg a bair fraw i'r drwgweithredwr. Nid felly pregethwr. Nid oes ganddo awdurdod gweledig y medr apelio ato am gynhorthwy i blygu yr anufudd iddo. Arall yw ei awdurdod ef.

Nid mewn coler rownd na gwisg ddu ond yng ngrym ei ddylanwad a'i gymeriad y gorwedd ei nerth a'i awdurdod. Methwn yn lân a dyfalu dro hir pam y casheid Ioan Fedyddiwr a chân perffaith gan y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, ond pwy ddydd daeth y syniad i mi eu bod yn ei gashau am nad oedd gwisg y proffwyd amdano. Yr oedd gormod o'r *nudist clan* yn perthyn i Ioan i'w bodloni. Fe faddeuid ei syniadau gwyllt a'i bregethu beiddgar iddo, mi gredaf, pe bai yn yr *uniform*.

> Ymgrymu i'r wisg, mae hynny'n beth hynod,
> Fe'i molir yn uwch na delw y Duwdod.

O leiaf y mae cot y Twrch daear yn ddigon parchus.

Wrth ddarllain amdano dwedir bod ei dŷ tanddaearol wedi'i gynllunio yn ofalus a phrydferth dros ben. Nid amheuaf ddim. Gwn bod cynllwynion a scêm llawer o'i dylwyth ar wyneb y ddaear felly hefyd.

Y mae yna dype o gymeriad yn byw yn y tywyllwch. Ni fedr ef na'i gynlluniau ddal golau haul. Rhyw awgrymu fel hyn ac arall y bydd, a sisial ei gyfrinachau yng nghlust y gwynt. Medrir lliwio awgrym a brawddeg. Medrir darllain i ysgrif feddyliau cudd ac arwynebol ond cythreulig y Twrch Daear ei hunan. Y mae'r pregethwr wrth natur yn esboniwr. Felly minnau. Cymerer yr erthyglau syml a phlaen a ysgrifenais er llanw yr Ymofynnydd ar Wŷr Pentyrch. Gwn nad oes neb mor fach* a chredu fod dim ynddynt ond y sydd ar yr wyneb, ond gadawer bod rhywun yn ceisio adnabod y Runner ac Atlas, Boxer a'r Gŵr Bethma, gan weld yn y darluniau anelwig hyn gymeriadau pobl respectable; dyna fuasai pridd y wadd i nodi llwybr y Twrch Daear a'i gais i anharddu llwybr cariad a chyfeillgarwch yn y byd. Nid oes neb wedi gwneuthur hyd y gwn ac ni nodaf hyn ond er dangos ystyr pridd y wadd a'r twrch daear mewn bywyd.

Ni welaf i bod yn rhaid chwilio dyffryn neilltuol nac eglwys neilltuol cyn cyfarfod a Gwŷr Pentyrch.

Gadawer i mi fod yn bendant am dro. Chwilier eglwys neu ardal a maentumiaf y ceir pridd y wadd i nodi llwybr y Twrch Daear yno. Y mae yna gymeriadau y sy'n *communicative* iawn. Gwn mai gair Saesneg ydyw ond ni wn am air Cymraeg i lanw ei le.

Fe ddwedant wrthych hanes y byd a'r betws gan geisio gennych beidio dweyd. Medrant daflu hud a lledrith dros weithred digon syml, ac wedi symud yr hud a meddwl, nid oes yno ddim ond pridd y wadd.

---

*Hwyrach bod yr awgrym wedi codi am fod rhai cyfeillion caredig am i gyfres Llanbedr derfynu gyda'r rhifyn hwn.

Nid oes raid aros yn hir mewn unrhyw fudiad cyn teimlo y Twrch Daear yn twrio ; y mae ei got ef yn lân fel melfed y Twrch ond fe erys cynhennau a chlap a chelwydd fel pridd y wadd i nodi ei lwybr cudd a thanddaearol.

Fel y Twrch yn byw ar greaduriaid y tywyllwch, felly y mae ei dype yn byw ar sisialon y tywyllwch a drwg dybiaeth ac eiddigedd. Dyma ddamnedigaeth pob lawnt, a dyma ddamnedigaeth pob mudiad ac eglwys. Nid oes dim yn rhy wael ganddo gredu am neb, na dim rhy wrthun i'w ledaenu, a phan welaf gynnen yn codi'i phen gan andwyo brawdgarwch, cofiaf am bridd y wadd ar fy lawnt. Y drwg amdani ni fedrir dal y Twrch ond tan y ddaear, ac fe'i delir bob cynnig ynghanol pridd y wadd. Y mae llawer cymeriad yn rhy nobl a ffein i feddwl am osod trap i'w ddal, a dyna gyfleu y Twrch. Nid oes raid iddo guddio'i lwybrau, a chynt neu hwyrach crwydra dros y ffin a chaiff ei hun yn y trap a'i holl gynllwynion wedi'u dwyn i olau dydd.

Ni cheisiaf fi ond portreadu cymeriad a edwyn pob un yn dda, gan rybuddio y Twrch Daear fod y gwaddotwr yn y tir, ac er iddo guddio ym mherfedd y ddaear, cynt neu hwyrach daw yn fwy eofn gan grwydro dros y ffin a gwae y Twrch o gael ei hun yn y trap.

Rhoir delw gŵyr yr adyn gwaelaf yn y Waxworks—Madam Tussaud—Tebig yw fy amcan innau. Tynnu llun y Twrch ynghanol ei bridd y wadd er iddo ef adnabod ei hun, ac er i'r byd ei weld yn Waxworks Gwyr Pentyrch.

O.

Ymson : Llyfr Job a'i Broblem.

WN i ddim gan bwy, ymha le, pa mor bell yn ôl, yr ysgrifennwyd llyfr Iob. Y mae enw'r awdur wedi mynd i dir angof ; ni cheir ynddo ddim a awgryma na'r wlad na'r amser y'i cyfansoddwyd. Yr unig sicrwydd o barthed iddo ydyw y rhaid ei ddyddio gryn dipyn o amser cyn adeg Iesu Grist ; pa mor bell tu ôl iddo yn gywir, fedr neb ddywedyd.

Un o drysorau llenyddol gwerthfawrocaf yr hen amseroedd ydyw. " Y mae," ys dywed Carlyle, " yn un o'r llyfrau goreu a gyfansoddwyd erioed ". Nid llyfr yr Iddew mo hono, eithr llyfr dyn, nad o ba genedl y bo. Nid oes undyn a'i derllyn na chaiff ynddo rywbeth a fydd o help iddo, a deifl ryw gymaint o oleuni ar ddyrysbynciau bywyd ac ar ffyrdd Duw yn ei ymwneuthur â dyn. Gwir ydyw na fedrai'r awdur ddadrys yr anawsterau a'i hwynebai ac a'i blinai, mwy nag y medrwn ninnau eu dadrys. Yn wir, ddyrysed ydyw llawer o'r pynciau hyn, fel na fedr dyn, gwnaed a fynno, mo'u hesbonio. A pheri rhyw fesur o flinder inni a wna'r methiant.

Y mae'r awdur yn ddigon gonest i gydnabod ei fethiant. Ni fedrai wneuthur rhagor na sylwi ar y rhyfeddodau a'i hwynebai ar bob tu. Eithr tu ôl i'r rhyfeddodau, gwelai Dduw. Y fellten a'r daran : rhyfeddodau ; ie, rhyfeddodau Duw. A rhyfeddodau yw'r ddeubeth hyn—cymaint rhyfeddodau, fel nad syndod i Fyfyr Emlyn, un tro, ar ganol ei bregeth, o glywed y daran yn rhuo uwch ei ben, eistedd i lawr, a dywedyd, " Pan yw Duw yn llefaru, doeth ydyw i'w was fod yn ddistaw ". Yr eira a'r glaw ; y gwynt a'r rhew : rhyfeddodau ;, ie, rhyfeddodau Duw. Gwir ydyw mai achwyn oblegid y pethau hyn a wnawn ni ; eithr nid llai rhyfeddodau ydynt, achwynwn ni a fynnom. Medrai'r awdur weld y rhyfeddol yn holl drefniadau'r Cread. Y ddaear anferth ; y " môr mawr llydan " ; goleuni ; y sêr aneirif ; bywyd yn ei aml agweddau ; marw : nid yw hyn ond prin ddegwm o'r gwrthrychau a enwir ganddo. A pheri iddo ryfeddu a wnaent—i gyd.

Ond—beth pe bai'r awdur byw heddiw ? Y mae trefniadau natur yr un yn awr ag oeddynt bryd hynny—ni pherthyn iddynt na chyfnewidiad na chysgod troedigaeth. Eithr y mae dyn wedi dod i ddeall trefniadau natur lawer yn well ; ac o'u deall y mae wedi llwyddo i'w darostwng i'w wasanaeth—a'i ddinystr hefyd mewn aml i achos—i fesur rhyfeddol o fawr. Ac o feddwl am y feistrolaeth y mae dyn wedi ennill ar natur, am y llwyddiant y sydd wedi coroni ei ymdrechion i dreiddio i mewn i'w dirgeledigaethau, fedrwn ni beidio â rhyfeddu ? O pherai natur a'i threfniadau i awdur Iob i ryfeddu o'u plegid, pa faint mwy y dylem ni ryfeddu gyda'n gwybodaeth berffeithiach ?

Ac eto, wn i ddim a ydym *ni* yn ddiffygiol yn y gallu i ryfeddu—*ni* o'r genhedlaeth bresennol. A ddeffry natur a'i threfnau ynom deimlad o ryfeddod i'r mesur dyladwy ? Ydyw gwybodaeth ein dydd ni—gwybodaeth a gynhydda o ddydd i ddydd—yn creu ynom ryw fesur o duedd i lefain allan gyda'r awdur—" dyma bethau rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn ' " ; a chydnabod, fel y gwna'r un awdur, y Trefnwr—y Cynlluniwr—perffaith tu cefn iddynt ? Darllenais yn ddiweddar sylw i'r perwyl—mai un o nodweddau amlwg dyn ein dydd ni yw'r diffyg gallu i ryfeddu. Y mae'r gallu i ryfeddu, wrth gwrs, ymhob natur ddynol yn awr fel cynt ; eithr nis cwrteithir agos i'r mesur yr arferid gwneuthur. Beth bynnag a ddarllenwn, ar ba beth bynnag y sylwn, ni ryfeddwn. Ai arwydd o ddirywiad yw hyn, ni wn ; eithr gwn mai diffyg mawr iawn ydyw.

A bu angen annog Iob i wrando, ac ystyried rhyfeddodau Duw rhyw ddwyfil a hanner—mwy neu lai—o flynyddoedd yn ôl, onid mwy o lawer yw'r angen heddiw ? Yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod, ynghanol rhyfeddodau : fedrwn ni ddim troi ein llygaid i un cyfeiriad heb inni eu gweld, os mynnwn. Natur yn ei threfnau gwych ; dyn yn ei yrfa hir o'i ddechreu pell yn ôl hyd yn awr ;

bywyd pob dyn a benyw yn enwedig—ei eni, ei dyfiant corfforol a meddyliol, ei brofiadau aml ac amrywiol eu natur, ei obeithion, ei ddelfrydau ; ie, ei farw : rhyfeddodau bob un o honynt.

Eithr o bob rhyfeddod, y mwyaf, yn ddios, ydyw dioddefaint ; yn sicr, yr anoddaf i'w ddadrys. A dyna'r broblem arbennig yr ymdrinir â hi yn llyfr Iob. Blinid yr awdur, fel y'n blinir ninnau, gan y ffaith bod dioddefaint. A'i gwestiwn ydyw—pam ? Eithr er ei ymgais i daflu ychydig oleuni ar y dirgelwch, prin iawn yw ei lwyddiant ; yn wir, cydnebydd ei hun ei fod wedi'i drechu. Ydym ni mewn gwell safle nag ef i draethu barn ar y mater ? Nac ydym, i'r mesur lleiaf ; yn yr unfan yn hollol y safwn ; a dyryswch heb ei esbonio yr erys y broblem. Eithr credwn, fel y mae'n amlwg y gwnai yntau, y gwelwn feddwl Duw yn a thu ôl i'r cyfan o brofiadau dynol, yn eu llywio tua'r sylweddoliad o ryw ddiben mawr. " Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior yn dwyn ei waith i ben ". " Dim a wyddom am ei ffyrdd " ; er hyn, onid mantais mawr iawn ydyw gallu o honom gredu " mai da a fydd, ryw ddydd, ymhell, i bawb ryw ddydd, y try pob gaea'n wanwyn gwyrdd ". Onid digon y ffydd hon i bob diben ymarferol ? Yn unrhyw achos, dyna'r man pellaf y medrwn fynd i mewn i galon y dirgelwch.

D.E.

Pantydefaid a'r Graig, Llandysul.

BU cyrddau croesawu y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., yn yr eglwysi uchod nos Fawrth, a nos Fercher, Medi 12fed a 13eg. Daeth cynulliad teilwng o'r aelodau a thrigolion y cylch, a llawer o ffrindiau o Lanbedr, Llangeitho, a Thregaron, i'r cyfarfodydd i ddymuno'n dda i'r gweinidog newydd a'i deulu.

Cafwyd cyfarfodydd hwylus iawn, ac iddynt awyrgylch hyfryd. Er treulio o'r Parch. Gwilym Evans flynyddoedd lawer yn Lloegr—nid cwbl ddieithr mohono ef na'i briod i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, ac i Undodiaid Ceredigion.

" Blwyddyn ddu " a fu'r un ddiwethaf i Bantydefaid a'r Graig—blwyddyn claddu'r Parch. T. Arthur Thomas.

Yn ystod y tymor blin—bu gweinidogion yr enwad ac amryw o'r enwadau eraill yn garedig odiaeth : ac ar ran y ddwy eglwys dymunwn ddiolch o galon iddynt hwy, ac i eglwysi eu gofal, am eu parodrwydd a'u cwrteisi mawr.

Bellach, dyma'r gweinidog newydd gyda ni, ac mae ei Gymraeg, a'i barabl, yn rhugl fel cynt.

Dechreuodd ar ei waith y Sul cyntaf o Fedi, a theimla'r aelodau'n falch am fod yma fugail eto.

Aethpwyd trwy'r rhan ddefosiynol ym Mhantydefaid gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau. Llywyddwyd gan yr Henadur Josiah Jones, Y.H., Garthowen. Yna, cafwyd anerchiadau byr a diddorol gan rai o'r aelodau a swyddogion yr eglwys, a chanwyd "Craig yr Oesoedd" gan Mrs. Evans, Argoed. Cafwyd anerchiadau diddorol wedyn gan y Parchn. D. A. Williams, (A), Carmel; J. Vaughan Pughe, (B), Cwrtnewydd; S. Evans Bowen, Alltyplaca a Chwrtnewydd; Dewi J. Jones, Capelygroes a Chribyn, a Mr. Joseph Morgan, Llangeitho—cyfaill mynwesol i Mr. a Mrs. Gwilym Evans. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. D. Evans, a oedd yn analluog i fod yn bresennol.

Aethpwyd trwy'r rhan ddefosiynol yn y Graig gan y Parch. S. Evans Bowen, a llywyddwyd gan Mr. T. Thomas, Spring Gardens. Cafwyd anerchiadau pwrpasol a diddorol gan rai o'r aelodau a swyddogion yr eglwys, a chan y Parchn. R. Morris, (B) Penybont, a D. A. Thomas, M.A., Ficer y plwyf. Yr oedd y Parch. R. D. Hughes, (W) Peniel, yno hefyd, ond oherwydd afiechyd nid oedd y Parch. D. Rhydderch, B.A., (A) Seion, yn abl i fod yn bresennol.

Cafwyd unawdau gan Miss Jones, Spring Croft, a Miss Williams, Half Moon; a chanodd y ddwy wedyn mewn pedwarawd gyda'r Mri. Evan Richards, Ardmore, a J. Jones, Derwydd.

Cyn gorffen o'r cyfarfodydd cafwyd anerchiad campus gan y Parch. Gwilym Evans, gan ddatgan ei ddiolchgarwch am y croeso cynnes a estynwyd iddo ef a'r teulu.

Wedi'r cyrddau ysblennydd hyn, hyderwn y bydd ef a'i deulu yn teimlo'n ddedwydd ac yn gartrefol yn nhawelwch y wlad, ac yn hen sir eu mebyd.

Hyderwn hefyd, y bydd Cylch Undodaidd Ceredigion yn gryfach ymhob dim wedi dychwelyd o'r Parch. Gwilym Evans; a boed ei weinidogaeth ymhen isa'r sir fod yn gyfrwng amgen i gadw fflam Undodiaeth ynghynn.

I.J.

(Diolchaf yn gynnes iawn i I.J. a hefyd i D. L. Davies, Lincoln Stores, Llandysul, am yr adroddiadau o'r Cyfarfodydd Croeso. Rhyw deimlo yr oeddwn fod eglwysi'r Graig a Phantydefaid wedi anwybyddu'r Ymofynnydd am reswm neu gilydd am na chefais nodyn i ddweyd eu bod wedi apwyntio Gweinidog Newydd na hysbysiad i'r Ymofynnydd o'r Cwrdd Croeso. Y mae'n dda gennyf gael ar ddeall mai nid o fwriad ond o ddiffyg ystyriaeth y'i gwnawd. Y mae'r ddau frawd uchod wedi gosod popeth yn ei le. All's well that ends well. Nid yw ond teg dweyd serch hynny fod llawer yn credu mai cyrddau arbennig i aelodau'r ddwy eglwys oeddent am na chafwyd hysbysiad yn Yr Ymofynnydd.)

Pwyllgor Gweithiol y Gymdeithas.

Yn unol a'r hyn a basiwyd yn y Pwyllgor Blynyddol cyfarfu'r Pwyllgor Gweithiol yng Ngalltyblaca nawn Llun, Medi 18, i ystyried safle ariannol y Gymdeithas.

Yr oedd yn bresennol y Parchn. Lewis Williams, E. Gwilym Evans, B.A., S. E. Bowen, Dewi J. Jones, E. O. Jenkins, ynghyd a chynrychiolwyr o Llandysul, Pantydefaid, Llwynrhydowen, Capelycwm, Capelybryn, Alltyblaca, Capelygroes, Cribyn, Ciliau a Rhydygwin.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor etholwyd Mr. Thomas Davies, Capelybryn i'r gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol.

Pasiwyd fod y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Rhydygwin. Ymdriniwyd â'r prif fater o dan ddau ben : (1) Sut i gael gwared ar y ddyled presennol, (2) Sut i osgoi mynd i ddyled eto. Er ceisio dod allan o ddyled pasiwyd ein bod yn gofyn i Mrs. Jones, Y Bryn a Mr. W. S. Jones (Llywydd a Thrysorydd y Gymdeithas) i gyhoeddi llythyr yn Yr Ymofynnydd yn gosod allan yr hyn mae'r Gymdeithas wedi wneud yn y gorffennol er budd ein heglwysi ac i apelio am gymorth i gael y Gymdeithas yn rhydd o ddyled mor fuan ag sydd le. Addawodd Mrs. Jones, y Bryn wneud apêl at adrannau Urdd y Benywod i geisio symud y ddyled o £18 sydd yn aros ar y Perlau Moliant.

Er osgoi mynd i ddyled eto pasiwyd (*a*) ein bod yn apelio at y rhai sy'n arfer cyfrannu i chwyddo eu tanysgrifiad os yw hynny'n bosibl (mae amryw wedi addaw gwneud hyn eisoes). (*b*) Fod enw pob un a gyfrano o swllt i fyny i ymddangos yn adroddiad blynyddol y Gymdeithas.

Rhoddodd y Parch. Dewi J. Jones rybudd y bydd iddo ef yn y Pwyllgor nesaf gynnig nad yw enw neb i ymddangos fel tanysgrifiwr yn yr adroddiad blynyddol—eithr cyfanswm cyfraniadau'r Eglwysi'n unig.

Estynnwyd croeso i'r Parch. E. Gwilym Evans ar ei ddyfodiad i'n plith. Diolchodd yntau am dano. Cafwyd ar ddeall gan y Parch. S. E. Bowen a Mr. Thomas Davies fod yna ddyn ieuanc o Gapelybryn yn bwriadu cynnig ei hun fel ymgeisydd am y weinidogaeth.

Diolchwyd cyn ymadael i'r boneddigesau lleol fu mor garedig a threfnu tê i'r ymwelwyr.

E. O. Jenkins.

Priodasau.

Awst 15, yn Llundain, unwyd mewn glân briodas Elwyn Davies (mab hynaf Mr. a Mrs. Terwyn Davies, The Beeches, Llanbedr), â Miss Terissa Wasmer. Hir oes ac iechyd i'r ddeuddyn ieuanc yn y brifddinas.

Awst 30, yng Nghapel Brondeifi, unwyd mewn glân briodas Mr. Ken Williams, un o feistri yr Ysgol Ganol, Llanbedr, â Miss Olive Hughes, Harford Row, Llanbedr. Cylymwyd y ddeuddyn gan y gweinidog ym mhresenoldeb Mr. Enoch Davies, Cofrestrydd. Gwenau'r nef fo ar yr uniad hapus.

Medi 14, ym Mwlchyfadfa, Mr. Daniel Saunders Davies, Blossom Garage, Pencader â Miss Betty May Griffiths, unig ferch Mr. a Mrs. William Griffiths, Fadfa, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r Cofrestrydd Thomas Jones. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss May Evans, Gwarallt-yfardre. Eiddunwn iddynt bob daioni.

Marwgofion.

Ar y 31ain o Orffennaf yn Ysbyty Aberystwyth, ac ar ôl cystudd trwm, Thomas Jones, Dyffryn, Drefach, Llanwenog, yn 63 oed. Un o hen breswylwyr yr ardal ydoedd ac yn hannu o dylwyth Undodaidd ac adnabyddus Tancoed. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Allt-yblaca, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog a Ficer y Plwyf. Gadawodd weddw a nifer o blant bach a chwaer mewn galar o'i golli. Bydded Duw yn noddfa iddynt.

Ar y 9fed o Fedi yn 79 oed, Anne Morgans, Spring Gardens, Cwrt-newydd. Trugarog oedd ei therfyn ar ôl cystudd maith. Fe weithiodd yn galed drwy ei hoes. Yr oedd yn Undodraig drwyadl ac yn ardderchog yn ei ffyddlondeb i Gapel-y-Bryn. Gweinyddwyd yn dirion iddi yn ei blynyddau diweddaf gan ei merch. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yng Nghapel-y-Bryn, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. Vaughan Pughe a Lewis Williams. Gadawodd ddwy ferch a thri mab a pherthynasau eraill i alaru ar ei hôl. Cysur dwyfol iddynt yn eu galar.

Medi 20fed, yn 59 mlwydd oed, wedi cystudd caled a dihoeni hir, bu farw Evan Evans, Y Cwrt, Pontshan. Un o blant Pwllffein ydoedd yr ymadawedig, ac un o'r hen deulu caredig hwnnw sydd wedi bod ynghlwm â Phantydefaid ers blynyddoedd. Hwyliodd yn fore dros y môr, a gweithiodd yn ddygn yng ngweithfeydd aur Affrica, ac ym mhyllau glo yr Amerig, ac wedi hynny ym Morgannwg. Do, gwelodd dipyn o'r hen fyd, ac yr oedd ei brofiad ohono'n helaeth; ond "arwr y mannau cudd" ydoedd, wedi'r cwbl. Gyda threigl y blynyddoedd cefnodd ar y tir pell a hen byllau'r ddaear: dychwelodd i drin y maes yn hedd y dyffryn, ac yn sŵn afon Gletwr: ac yno y bu hyd ei farw—yn briod annwyl a thyner, yn dad cariadus a gofalus, yn frawd parchus a thwymgalon, ac yn gymydog ffein a chymwynasgar. Trist gweled hen gydnabod—gŵr cydnerth, cadarn, yn marw gyda'r haf. Hebddo, gwacach a thlotach y Cwrt, ac y mae bro ei febyd—Dyffryn Cletwr, yn dlotach hefyd o'i golli ef. Yn wyneb pob siom a galar, boed i'r weddw a'r plant, a'r perthnasau eraill, iechyd a nerth i ddal ati yn nos y storm. Claddwyd ym Mhantydefaid. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. E. Gwilym Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins, yn y tŷ, a D. A. Williams, (A), Carmel, ar lan y bedd.

Nodion yr Eglwysi.

Y GYMANFA GANU.—Gan na ellir disgwyl y Rhaglen allan yn fuan, rhoddir yma restr o'r Tonau allan o'r Perlau Moliant, sydd i fod yn y Rhaglen, fel y gall ein cynulleidfaoedd eu hymarfer yn y cyfamser:—

Rhif	*Ton*	*Emyn*
20	Penmachno ...	49
67	Nantgau	184
75	St. Elizabeth ...	206
108	Sanctus	267
157	Gorfoledd	366
159	New Pembroke ...	370
175	Brynawel	398
183	Panteg	413
196	Pilgrims	443

BRONDEIFI.—Brynhawn Sul, Medi 24, cyflwynodd y Gweinidog gloc hardd i un o aelodau'r eglwys—Mrs. Ken Williams (nee Hughes) ar achlysur ei phriodas. Yr oedd Mrs. Williams wedi gwasanaethu am flynyddoedd fel un o organyddesau yr eglwys a mynnai ei chydaelodau ddangos eu parch iddi a gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth. Siaradodd y gweinidog ar ran yr aelodau wrth estyn iddi yr anrheg brydferth ac arno yr ysgrifen,—"Presented to Miss Olive Hughes for her services as organist, on her marriage, 30/8/33."

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.